Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 460 (Cy.45)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud	- -	*25 Chwefror 2004*
Yn dod i rym	- -	*26 Chwefror 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 113(1) a (2) a 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), a pharagraffau 1, 2(4)(a), (e), (g), (i) a (j), 4(4) a (5) a 14(1) a (2) o Atodlen 2 iddi a pharagraffau 6(1) a (2) o Atodlen 3 iddi ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 26 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau 1993" yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**3**).

Diwygio Rheoliadau 1993

3.—(1) Mae Rheoliadau 1993 yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 —

(a) Rhif wch y geiriad presennol yn baragraff (1),

(b) hepgorwch y diffiniad o "relevant valuation band",

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosodwch —

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) *Gweler*O.S. 1999/672, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Cymru) 1999.
(**3**) O.S. 1993/255.

"(2) Any reference in these Regulations to the relevant valuation band in relation to a dwelling is a reference to the valuation band shown as applicable to the dwelling —

(a) in the billing authority's valuation list; or

(b) if a new valuation list is due to come into force for the relevant year under section 22B(2)(b) or (3)(b) of the 1992 Act, as the case may be:

(i) except in a case to which paragraph (3) applies, in the list proposed to be compiled as the new list, "the proposed list", by the listing officer and sent to the billing authority under section 22B(7) of the 1992 Act; or

(ii) in a case to which paragraph (3) applies, in information which for the purposes of this sub-paragraph is relevant information.

(3) This paragraph applies where the listing officer supplies the authority with information relating to property shown in the proposed list (including information relating to the application to such property of article 3 or 4 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992(**4**); and such information is relevant information for the purposes of paragraph (2) to the extent that it differs from information contained in the proposed list.".

(3) Ar ôl paragraff 7(b) o Atodlen 1 mewnosodwch —

"(bb) section 13A of the 1992 Act;".

(4) Ym mharagraff 15(b) o Atodlen 2 —

(a) ar ddiwedd is-baragraff (iv) hepgorwch "and";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (v) mewnosodwch "and";

(c) ar ôl is-baragraff (v) mewnosodwch —

"(vi) a person may be eligible for a reduction under section 13A of the 1992 Act;".

(5) Ym mharagraff 15(c)(i) o Atodlen 2 yn lle "subsection (2) or (3)" rhowch "subsection (3) or (4)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

D. Elis-Thomas

25 Chwefror 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) O.S. 1992/549.

(**5**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 ("y prif reoliadau") yn rhagnodi'r materion sydd i'w cynnwys mewn hysbysiadau sy'n galw am dalu'r dreth gyngor a'r wybodaeth sydd i'w darparu gyda'r hysbysiadau hynny.

Ym mharagraffau 5 a 6(1) o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau, mae'r materion sydd i'w cynnwys mewn hysbysiadau o'r fath yn cynnwys datganiad o'r band prisio perthnasol ar gyfer yr annedd berthnasol a datganiad o swm y dreth gyngor sy'n gymwys i anheddau sy'n dod o fewn y band hwnnw mewn blwyddyn benodol, yn ôl eu trefn. Mae'r bandiau prisio perthnasol yn cael eu penderfynu drwy gyfeirio at restr brisio pob awdurdod bilio. Mae adran 77 (Cylch ailbrisio statudol) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003") yn mewnosod adran 22B yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"). Mae adran 22B yn darparu bod rhaid i restrau prisio newydd gael eu llunio mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru ar 1 Ebrill 2005 ac o dro i dro ar ôl hynny yn ôl yr hyn a bennir neu a ragnodir.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi diffiniad newydd o'r band prisio perthnasol yn rheoliad 2 o'r prif reoliadau yn lle'r hen ddiffiniad. Mae effaith y diffiniad newydd fel a ganlyn: os yw rhestr brisio newydd i fod i ddod i rym ar gyfer blwyddyn benodol, yna rhaid canfod y band prisio perthnasol ar gyfer y flwyddyn honno drwy gyfeirio at y rhestr y bwriedir ei llunio fel y rhestr newydd neu drwy gyfeirio at wybodaeth ynglyn ag eiddo a ddangosir ar y rhestr arfaethedig i'r graddau y mae'n wahanol i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y rhestr arfaethedig.

Mae paragraff 7 o Atodlen 1 i'r prif reoliadau yn nodi'r darpariaethau o dan Ddeddf 1992 y mae'n rhaid i awdurdod bilio roi sylw iddynt wrth baratoi datganiad o'r diwrnodau (os oes rhai) y cyfrifir y swm y mae angen ei dalu o dan hysbysiad galw am dalu'r dreth gyngor yn unol â hwy. Mae Adran 76 (Pŵer awdurdod bilio i leihau swm y dreth sy'n daladwy) o Ddeddf 2003 yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf 1992 (adran 13A). Mae Adran 13A yn rhoi disgresiwn i awdurdod bilio, lle bo person yn atebol i dalu'r dreth gyngor ar gyfer unrhyw annedd drethadwy ac unrhyw ddiwrnod, i leihau'r swm y mae person yn atebol i'w dalu ar gyfer yr annedd a'r diwrnodau i'r graddau y gwêl yr awdurdod yn dda.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7 o Atodlen 1 i'r prif reoliadau fel bod rhaid i awdurdod bilio, wrth baratoi datganiad o'r diwrnodau (os oes rhai) y cyfrifir y swm y mae angen ei dalu o dan hysbysiad galw am dalu'r dreth gyngor yn unol â hwy, roi sylw bellach (yn ychwanegol at y darpariaethau hynny sydd eisoes wedi'u cynnwys ym mharagraff 7) i adran 13A o Ddeddf 1992. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 15 o Atodlen 2 i'r prif reoliadau hefyd fel bod rhaid bellach i'r nodiadau esboniadol sydd i'w darparu gyda hysbysiad sy'n galw am dalu'r treth gyngor gynnwys (yn ychwanegol at yr arwyddion cyffredinol hynny sydd eisoes wedi'u cynnwys ym mharagraff 15) arwydd cyffredinol ynglyn â'r amgylchiadau y gall person fod yn gymwys odanynt i gael lleihad yn swm y dreth gyngor y mae'n atebol i'w dalu o dan adran 13A o Ddeddf 1992.